**Cofnodion Heb eu Cadarnhau**
**Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Cyfarfod Agored 7 Gorffennaf 2022, 09:30**
**Lleoliad: drwy Microsoft Teams**

| **Yn bresennol:** | | |
| --- | --- | --- |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd *(gadawodd y cyfarfod am 11:30am)* |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr *(gadawodd y cyfarfod am 10:50am)* |
| Rupinder Dogra | (RD) | Pennaeth Partneriaethau Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Angela Jones | (AngJ) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant |
| Joe O'Brien | (JO'B) | Arweinydd Systemau a Dadansoddeg y Gweithlu (ar gyfer eitem 4.1) |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd y staff |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Samantha Morgan | (SM) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Mewnwelediadau a Gwasanaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Lisa Whiteman | (LW) | Rheolwr Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 3.1) |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Undebau Llafur Ochr y Staff |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu Iechyd a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Reanne Reffell | (RR) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:30*

**PODC 1/2022.07.07 Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a ddaeth i law.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Hydref 2022.

**PODC 2/2022. 07.07 Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**PODC 3/2022. 07.07 Eitemau i'w Trafod**

**PODC 3.1/2022.07.07 Blaenoriaethau Datblygu Sefydliadol a Phobl: 2 Datblygu Fframwaith Ymddygiad sy'n gysylltiedig â gwerthoedd**

Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Flaenoriaeth 2 y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol: Datblygu fframwaith Ymddygiad sy'n gysylltiedig â gwerthoedd.

Cyflwynodd NL Flaenoriaeth 2, un o 5 prif flaenoriaeth y Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl a amlinellwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor. Cadarnhaodd NL fod ei dîm wedi rhannu gwybodaeth am ddatblygiad y Fframwaith Ymddygiad gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, y Tîm Arwain a staff ledled y Sefydliad er mwyn cael eu barn ac adborth adeiladol.

Darparodd RA gyd-destun pellach i'r Fframwaith Ymddygiad, a oedd yn un elfen o raglen waith a ddyluniwyd i helpu i ymgorffori ein gwerthoedd yn raddol ar draws y Sefydliad dros gyfnod o 2-3 blynedd.

Cyflwynodd LW sleidiau ar y Fframwaith Ymddygiad, a oedd yn canolbwyntio ar greu diwylliant gyda gwerthoedd amlwg wrth ei wraidd, a rhoddodd

enghreifftiau o sut y byddai gwerthoedd a’u dangosyddion ymddygiad priodol yn berthnasol i bobl o fewn y Sefydliad. Amlinellodd LW waith y grŵp llywio i rannu'r fframwaith, y manteision disgwyliedig, y canlyniadau, a'r amserlen o ran y camau nesaf. Roedd LW yn awyddus i glywed sylwadau ac ymateb greddfol aelodau'r Pwyllgor, ynghyd â chael eu cefnogaeth i’r Fframwaith Ymddygiad.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- Fyfyrio ar gonfensiwn enwi’r fframwaith ymddygiad a’r iaith a ddefnyddir ynddo, gan nodi bod angen fframwaith diwylliant a dysgu ystwyth ar Sefydliad ystwyth,
- Holi ynghylch trefniadau llywodraethu'r Fframwaith a chynnwys yr Undebau Llafur yn y broses gymeradwyo ffurfiol. Nodwyd y byddai cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu, bod cynrychiolwyr Undebau Llafur ar y Grŵp Llywio, a bod y Fframwaith wedi'i ystyried gan y Fforwm Partneriaeth Lleol. Byddai’r tîm Datblygu Sefydliadol a Phobl yn parhau i ymgysylltu â’r Undebau Llafur mewn perthynas â'r Fframwaith i gydnabod pwysigrwydd partneriaeth gydag undebau llafur,
- Gofyn am sicrwydd y byddai Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd cadarn yn cael ei gynnal a'i ystyried drwy gydol y broses. Cadarnhaodd RA y byddai'r dangosyddion yn cael eu datblygu i adlewyrchu pwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chytunwyd i rannu'r Asesiad o'r Effaith a Gydraddoldeb ac Iechyd gyda LH. Holodd LH hefyd a oedd data ar gael i ddangos i ba raddau yr oedd y gwerthoedd cyfredol wedi'u hymgorffori. Cytunodd LW i godi hyn gyda LH y tu allan i'r cyfarfod,
- Nododd SW y gallai nodweddion gwarchodedig effeithio ar ymddygiad personol; cytunodd LW i gysylltu â SW ynglŷn â hyn, a rôl y Rhwydweithiau Staff mewn perthynas â datblygu'r Fframwaith,
- Myfyrio ar bwysigrwydd cael dulliau mesur canlyniadau i fesur effeithiolrwydd ac effaith y Fframwaith ar ôl iddo gael ei roi ar waith, a chwestiynu’r cynlluniau i wneud cais am fuddsoddiad ar gyfer dadansoddeg ddiwylliannol,
- Datgan cefnogaeth i Fframwaith a oedd yn helpu i alluogi sgyrsiau a chreu dealltwriaeth gyffredin. Roedd cyfres o ganllawiau yn cael eu datblygu mewn perthynas â'r Fframwaith i gefnogi pobl i fodloni dangosyddion, h.y. deall sut i ofyn am / derbyn a rhoi adborth mewn ffordd a oedd yn cyd-fynd â gweddill y gwerthoedd ymddygiad.
- Gofyn i'r parodrwydd i dderbyn risg gael ei adlewyrchu yn yr ymddygiadau a'r canllawiau ar yr hyn y mae'n ei olygu o ran ymddygiad pobl, a gofyn hefyd i'r Aelodau Anweithredol gael eu cynnwys yn benodol yn y dangosyddion.

Diolchodd y Pwyllgor i'r tîm am y cyflwyniad a'r cyfle i'r Pwyllgor gael ei gynnwys yn y gwaith hwn ar gam cynnar. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld fersiynau pellach wrth i'r Fframwaith Ymddygiad ddatblygu.

| **PODC 4/2022.07.07** | **Eitem er Sicrwydd** |
|---|---|
| **PODC 4.1/2022.07.07** | **Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad gan gynnwys y Data newydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** |

Cyflwynodd JO'B y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad ar ei newydd wedd, a oedd yn cynnwys Data newydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Yn dilyn cam gweithredu blaenorol gan y Pwyllgor i adolygu'r gydberthynas rhwng absenoldeb salwch a bandiau cyflog, roedd JO'B wedi bwrw golwg fanwl ar ddata'r Sefydliad er mwyn cymharu â'r darlun cenedlaethol. I grynhoi, roedd staff ar y bandiau is yn gweithio'n bennaf i'r Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio / meysydd Covid a oedd â chyfraddau uwch o salwch yn ystod y pandemig. Ffactor a oedd yn cyfrannu at hyn oedd bod yr aelodau staff hyn yn aml yn gweithio o'r gweithle/ar y safle ac felly roedd angen iddynt osgoi'r gweithle pan oeddent yn sâl. Roedd y data hyn yn cyfateb i ddatganiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a’r darlun tebyg a welwyd ar draws byrddau iechyd cyfagos.

Diolchodd SW i JO'B am y wybodaeth ddefnyddiol hon a holodd ynglŷn â'r defnydd o'r un mesurau absenoldeb salwch ar gyfer y rhai a oedd yn gweithio ar y safle o gymharu â staff a allai weithio gartref. Dywedodd NL mai Polisi Salwch ac Absenoldeb Cymru Gyfan oedd hwn a oedd yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y GIG, waeth beth fo'r math o waith.

Gwnaeth AJ sylwadau ar y cymorth i'r staff mewn perthynas â Covid a heintiau anadlol, gan roi gwybod am yr argymhelliad diweddar i staff a chyfranogwyr y gwasanaethau sgrinio wisgo masgiau wyneb, ac argymhelliad i roi mesurau rhagofalus ar waith mewn ymateb i'r sefyllfa gyfnewidiol yn y gymuned.

Dywedodd TC ei bod yn wych gweld mai dyrchafiad oedd y prif reswm pam yr oedd staff yn gadael, a bod hyn yn arwydd da o ddatblygiad staff. Cadarnhaodd JO'B fod y dangosfwrdd Trosiant ond yn cynnwys y rhai sy'n gadael y Sefydliad, gan nodi ei bod yn gadarnhaol bod y rhan fwyaf yn gadael ar ôl 5 mlynedd, a hynny'n bennaf i swyddi o fewn sefydliadau'r GIG er mwyn datblygu eu gyrfaoedd. Nodwyd mai’r ail brif reswm dros adael oedd cyn 12 mis, yn bennaf oherwydd y defnydd o gontractau cyfnod penodol mewn perthynas ag ymateb y Sefydliad i Covid.

Fe wnaeth LH sylw ar y gyfradd trosiant o 20% o staff parhaol ar fandiau is, gan amlygu'r risg bosibl i'r Sefydliad. Aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried y prif resymau dros salwch staff, yn enwedig gorbryder, straen ac iselder, ac yna heintiau. Nododd y Pwyllgor fod SM yn cynnal dadansoddiad pellach o'r rhesymau dros adael a gofynnodd i hyn gael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor ar yr adeg briodol, ynghyd ag unrhyw themâu nodedig ar absenoldeb salwch, unrhyw themâu eraill sy'n dod i'r amlwg ac ymyriadau posibl i liniaru'r rhain.

**Camau gweithredu: JO'B / SM**

Dywedodd SW y gallai'r Fforwm Partneriaeth Lleol hefyd ddadansoddi a thrafod y canlyniadau ar ôl iddynt gael mynediad i'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.

Aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried y dangosfwrdd Amrywiaeth er mwyn sicrhau bod y data'n gyflawn. Wrth gloi'r drafodaeth, croesawodd MM ddatblygiad dangosfwrdd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu a chytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ei ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
**Camau gweithredu: JO'B / LB**

Diolchodd y Pwyllgor i JO'B am y diweddariad.

| | |
|---|---|
| **PODC 4.2/2022.07.07** | **Egwyl** |
| **PODC 4.3/2022.07.07** | **Rheoli Risgiau** |

Cyflwynodd RB-W y Gofrestr Risgiau Strategol, a oedd yn cynnwys dwy risg o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Rhoddodd NL y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith yn ymwneud â Risgiau Strategol 3 a 4, gan dynnu sylw at yr heriau priodol, yr adnoddau a'r rheolaethau ynghylch newid sefydliadol, a recriwtio'r gweithlu.

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- Mewn perthynas â Risg strategol 3, cwestiynodd MM hyder y Sefydliad o ran deall yr holl newidiadau ar draws y sefydliad a rheoli newid. Dywedodd NL fod y Tîm Gweithredol wedi cwrdd â'r tîm Strategaeth a Chynllunio er mwyn cynnal ymarfer cwmpasu cyflym o brosiectau allweddol a'r cymorth sydd ei angen, ac y byddai'n parhau i gynnal adolygiadau misol/sesiynau craffu manwl ar ymarferoldeb prosiectau. Cyfeiriodd NL at y cynllun i sefydlu ymarfer cymunedol rheoli prosiectau a rhaglenni a chytunodd i rannu adroddiad cynhwysfawr yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref.
  **Camau gweithredu: NL**
- Awgrymodd SW y dylid cyfeirio trafodaethau cynharach ynghylch cyfraddau trosiant yn y bandiau cyflog i'r drafodaeth am risgiau, yn ogystal â staff proffesiynol. Cytunodd RBW y dylid ystyried hyn fel rhan o'r drafodaeth am Risgiau Corfforaethol.
- Cyfeiriodd KY at heriau'n ymwneud â'r trydydd sector a phrosiectau sydd ar y gweill gan Gofalwyr Cymru y gallai'r Sefydliad eu cefnogi, er mwyn galluogi pobl dalentog a ddaeth yn ofalwyr yn ystod y pandemig i ddychwelyd i'r gwaith.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y dulliau o reoli risgiau strategol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **PODC 4.3/2022.07.07** | **Diweddariad ar y Fforwm Partneriaeth Lleol** |

Cyflwynodd HB y ddogfen 'Gweithio Gyda'n Gilydd - Bwrdd ac Undebau Llafur', a nododd y byddai'n eitem barhaol o hyn ymlaen y byddai cydweithwyr o'r Undebau Llafur a'r gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl yn ei chyflwyno mewn partneriaeth gyfartal.

Soniodd HB am y gwaith sydd ar y gweill i adolygu ymwneud yr Undebau Llafur â'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn erbyn llawlyfr o ganllawiau'r Undebau Llafur Cenedlaethol.

Soniodd MM am bwysigrwydd galluogi staff a chynrychiolwyr Undebau Llafur i gael llais ar lefel y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Gan gefnogi'r farn hon, dywedodd DE fod angen i ddiwylliant ac ymddygiad y Sefydliad gefnogi trafodaeth barhaus ac agor drysau. Gofynnodd am dystiolaeth bod staff yn gallu dylanwadu ar ddatblygiad y Sefydliad.

Dywedodd LH fod ymgysylltiad ar lefel uchel ac ar lefel y staff, ond yr hoffai weld gwell ymgysylltiad ar lefel Cyfarwyddiaeth. Nodwyd bod hwn yn un o'r prosiectau y byddai'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn ymchwilio iddo.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd gopi o gylch gorchwyl diwygiedig y fforwm er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PODC 5/2022.07.07** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **PODC 5.1/2022.07.07** | **Cofnodion, Log Gweithredu a Materion yn Codi** |

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Ebrill 2022 fel cofnod gwir a chywir o’r cyfarfod, gyda’r cywiriad ‘dywedodd SM fod hyfforddiant allanol ar reoli cydraddoldeb ac amrywiaeth (gyda chynnwys sefydliadol ychwanegol yn cael ei ddarparu gan y gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl ar gyfer cyd-destun) wedi’i ddarparu i uwch aelodau o staff y sefydliad; cafwyd adolygiadau **cymysg**;
- **Cymeradwyo** cau'r chwe cham gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.

| | |
|---|---|
| **PODC 5.2/2022.07.07** | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22** |

Cyflwynodd RA Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2021/22, gan dynnu sylw at: y cynnydd yn nifer y gweithwyr sy’n cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg; y ffaith bod Grŵp y Gymraeg wedi cael ei ad-drefnu a bod Rhwydwaith Cymraeg yn cael ei ystyried er mwyn rhoi mwy o lais i weithwyr ar hybu'r Gymraeg.

Nododd DE er bod peth o’r gwaith ar hyrwyddo’r Gymraeg wedi cael eu hatal dros dro yn ystod y pandemig, bod cyfle bellach i ailystyried uchelgais y Sefydliad ac ailgydio yn y gwaith hwn. Roedd DE yn galonogol o weld bod y safonau'n cael eu cyrraedd ond heriodd y Sefydliad i fod yn fwy uchelgeisiol o ran hyrwyddo'r Gymraeg.

Nododd HB fod cyfarfodydd y Bwrdd yn arfer cael eu ffrydio'n fyw cyn y pandemig, ac er nad oedd yn bosibl eu cyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd, roedd gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar dechnoleg i helpu i ddatrys hyn.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg, yn amodol ar sylwadau ac adborth i Sara Peacock erbyn 30 Medi 2022.

| **PODC 6/2022.07.07** | **Eitemau i'w Nodi** |
|---|---|
| **PODC 6.1/2022.07.07** | **Cynllun Gwaith** |

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Nodi'r** cynllun gwaith,
- **Gofyn** am ddyddiad ar gyfer diweddariad ar ‘Gweithio Sut Mae’n Gweithio Orau i Chi cyn mis Ionawr 2022. Dywedodd NL y byddai gwerthusiad chwe misol yn amlygu themâu ac y byddai'n gweithio gydag LB ar amseriadau er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.
- Gofyn am ddiweddariadau ar ddyddiad i Arolwg Staff GIG Cymru Gyfan
- Awgrymu ychwanegu adroddiad blynyddol gan y Fforwm Partneriaeth Lleol i'w gyflwyno i'r Bwrdd neu'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl.

  **Camau gweithredu: NL / LB**

| **PODC 6.2/2022.07.07** | **Protocol Archwilio** |
|---|---|

**Nododd** y Pwyllgor y Protocol Archwilio.

| **QSIC 7/2022.07.07** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
|---|---|
| **QSIC 7.1/2022.07.07** | **Unrhyw Fater Arall** |

Nid oedd unrhyw fater arall i'w nodi.

| **QSIC 7.2/2022.07.07** | **Adborth gan y Pwyllgor** |
|---|---|

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth o'r cyfarfod gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i wella arnynt.

| **QSIC7.3/2022.07.07** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
|---|---|

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 06 Hydref 2022.

*Daeth y cyfarfod i ben am 11:45*